| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 21 Tachwedd 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol<br>Helen Vaughan-Evans, Pennaeth Gwasanaeth Cefnogaeth Gorfforaethol: Perfformiad, Digidol ac Asedau |
| **Awdur yr adroddiad** | Emma Horan, Swyddog Cynllunio a Pherfformiad |
| **Teitl** | **Diweddariad ar Berfformiad y Cynllun Corfforaethol: Gorffennaf - Medi 2023** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Cyflwyno diweddariad ar berfformiad y Cyngor yn erbyn ei Gynllun Corfforaethol ar ddiwedd Medi (chwarter 2), gan gynnwys amcanion Cydraddoldeb Strategol a'r saith maes llywodraethu allweddol, sef: cynllunio corfforaethol; cynllunio ariannol, rheoli perfformiad; rheoli risg; cynllunio'r gweithlu; asedau a chaffael.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae adroddiadau rheolaidd yn un o ofynion monitro hanfodol Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor. Caiff adroddiadau perfformiad chwarterol eu rhannu'n rheolaidd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA), y Cabinet a Chraffu Perfformiad, er mwyn cefnogi trafodaeth adeiladol ynghylch ein perfformiad a nodi ymyraethau, lle bo angen.

2.2. Mae'r adroddiadau diweddariad ar berfformiad chwarterol hyn yn casglu tystiolaeth sy'n ffurfio rhan o'n Hunanasesiad o berfformiad yn erbyn ein swyddogaethau, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Argymhellir bod y Cabinet yn ystyried yr adroddiad ac yn cytuno ar unrhyw gamau pellach sydd eu hangen i ymateb i unrhyw faterion perfformiad a nodir yn yr adroddiad.

3.2. Yn amodol ar unrhyw newidiadau, y Cabinet i gadarnhau cynnwys yr adroddiad drafft ar gyfer ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, a fydd yn cyfarfod ar 30 Tachwedd.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Yr adroddiad yn atodiad 1 yw ein Hadroddiad Diweddariad ar Berfformiad chwarterol cyfarwydd, sef ein proses ar gyfer hunanasesiad parhaus, ar gyfer y cyfnod Gorffennaf i Fedi 2023. Mae angen i'r Cyngor hunanasesu ein perfformiad yn erbyn cyflawni ein swyddogaethau eraill o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

4.2. Mae'n ail o bedwar diweddariad Hunanasesiad Perfformiad a gynhyrchir yn ystod y flwyddyn ar gyfer hunanasesu ein perfformiad yn erbyn darpariaeth ein swyddogaethau. Ar y cyfan, cyflwynir yr adroddiad mewn dau ran sy'n ceisio amlinellu cynnydd yn erbyn y meysydd allweddol canlynol:

- Amcanion Perfformiad – sy'n cynnwys Amcanion ein Cynllun Corfforaethol / Cydraddoldeb Strategol (sydd hefyd yn ffurfio ein Hamcanion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015).
- Meysydd Llywodraethu – wedi'u pennu ymlaen llaw gan y canllawiau statudol ar berfformiad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

4.3. Caiff bob adroddiad Diweddariad Hunanasesiad Perfformiad chwarterol eu rhannu â'r UDA, y Cabinet a Chraffu Perfformiad (cyflwynir chwarter dau a phedwar i'r pwyllgorau). Caiff adroddiadau chwarter 4 hefyd eu rhannu â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor Sir, gan gynnwys Crynodeb o Hunanasesiad ar gyfer y flwyddyn. Dylai'r adroddiadau gael eu gweld fel adnoddau i gefnogi trafodaeth adeiladol, agored ac onest am ein perfformiad, gan helpu i adnabod ymarfer da a meysydd ar gyfer ymyrraeth neu graffu pellach.

4.4. Mae'r Adroddiad Diweddariad ar Berfformiad hwn yn cyflwyno'r darlun diweddaraf o fis Gorffennaf tan fis Medi 2023, ac mae ei fformat wedi ei ddiweddaru ychydig i adlewyrchu trafodaethau yn dilyn Adolygiad Cyfran y Cynllun Corfforaethol ym Medi a chyhoeddi ein hadroddiad Ebrill i Orffennaf:

- Mae'r adroddiad hwn nawr yn cynnwys adrannau sy'n rhoi crynodeb o fesurau a phrosiectau sy'n cefnogi bob addewid ar gyfer y naw thema yn y Cynllun Corfforaethol.
- Mae mesurau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru nawr yn ymddangos ar ddiwedd bob adran.
- Mae mesurau Arolwg Budd-ddeiliaid nawr yn eistedd yn eu tabl eu hunain gyda cholofnau data i'r rhai a atebodd 'cytuno', 'anghytuno' a 'dim barn/ansicr', gyda statws i'r rhai a fynegodd farn a chytuno. Er rydym yn parhau i ystyried adrodd ar Arolwg Budd-ddeiliad.
- Rydym wedi dechrau adolygu, gyda Phenaethiaid Gwasanaeth, trothwyon ar gyfer rhai o'n mesurau. Rydym wedi nodi ble mae'r rhain wedi eu diweddaru.
- Mae prosiectau yn yr arfaeth wedi eu cynnwys.
- Yn dilyn trafodaeth gan y Bwrdd newydd Cyngor sy'n cael ei Gynnal yn dda, ac sy'n Uchel ei Berfformiad mae geiriad yr addewidion o dan thema 9 bellach wedi ei ehangu. Gofynnir am gymeradwyaeth ar gyfer y newidiadau hyn gan y Cyngor Sir fel rhan o'n Hadroddiad Hunanasesu ar gyfer y flwyddyn yng ngwanwyn 2024. Yn y cyfamser, byddwn yn gweithio ar y sail y bydd y geiriad newydd yn cael ei dderbyn.

4.5. Bydd unrhyw gyfleoedd pellach i wella'r Fframwaith Rheoli Perfformiad ac Adroddiadau Diweddariad ar Berfformiad yn barhaus, yn cael eu cymryd gan y Tîm Cynllunio Strategol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae'r Adroddiad Diweddariad Perfformiad yn cynnwys arfarniad o lwyddiant y Cyngor wrth gyflawni themâu ei Gynllun Corfforaethol.

## 6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les ar y Cynllun Corfforaethol, a chafodd ei gyflwyno i'r Cyngor Sir pan gymeradwywyd y cynllun ym mis Hydref 2022. Bydd prosiectau / rhaglenni

gwaith newydd o fewn y Cynllun Corfforaethol yn cael eu hasesu'n unigol, fel ag y bydd unrhyw gamau gweithredu newydd wrth symud ymlaen.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cafodd yr adroddiad ei lunio gan y Tîm Cynllunio Strategol, mewn ymgynghoriad â gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r wybodaeth ynglŷn â pherfformiad sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen wedi ei darparu gan wasanaethau, ac mae wedi ei chymryd o'r system rheoli perfformiad Verto ac yn adlewyrchu, ble'n briodol, y drafodaeth gan Fyrddau'r Cynllun Corfforaethol neu gamau gweithredu yn dilyn yr Adolygiad Cyfran.

8.2. Trafodaethau eisoes wedi eu cynnal gyda'r UDA, ac yn dilyn y Cabinet (21 Tachwedd), bydd yr adroddiad ar raglen Craffu Perfformiad (30 Tachwedd).

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Ni cheir goblygiadau ariannol uniongyrchol yn sgil yr adroddiad hwn. Dylid nodi, fodd bynnag, y gallai sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn 2024-2025 a thu hwnt ei gwneud yn anodd i wasanaethau gynnal lefelau perfformiad mewn rhai meysydd yn y dyfodol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Byddai methu â chyhoeddi ein hadroddiadau diweddariad ar berfformiad, sy'n cyfrannu at ein Hunanasesiad blynyddol, yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Archwilio Cymru, gyda goblygiadau i enw da'r Cyngor.

10.2. Mae risg y bydd perfformiad gwael yn cael ei adrodd allan o'i gyd-destun, gan effeithio ar ein henw da. Felly byddwn yn rhannu'r adroddiad drafft gyda'r Tîm Cyfathrebu.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (pennod 1, adran 89).

11.2. Rhan 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (adran 13).

11.3. Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (adran 16); a Rheoliadau'r Ddeddf Cydraddoldeb (Awdurdodau sy'n ddarostyngedig i Ddyletswydd ynghylch Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol) (Cymru) 2021.